# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD GWENER, 22AIN GORFFENNAF, 2022**

Lleoliad

**Virtual Meeting / Cyfarfod Rhithiol**


Pwynt Cyswllt

**Annes Siôn**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru / 01286 679490**


(Dosbarthwyd DyddiadAmhenodolydd Gwener 15 Gorffennaf 2022)

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Aelodau Cyngor

Cyng. Jason McLellan - Cyngor Sir Ddinbych
Cyng. Llinos Medi Huws - Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Charlie McCoubury - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng. Mark Pritchard - Cyngor Wrecsam
Cyng. Ian Roberts - Cyngor Sir y Fflint
Cyng. Dyfrig L Siencyn - Cyngor Gwynedd

Aelod Eryri

Cyng. Annwen Hughes – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Swyddogion

Dafydd Gibbard - Cyngor Gwynedd – Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor
Dylan Williams - Cyngor Sir Ynys Môn
Iwan Davies - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Neal Cockerton - Cyngor Sir y Fflint
Graham Boase - Cyngor Sir Ddinbych
Ian Bancroft - Cyngor Wrecsam
Emyr Williams – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Swyddogion Statudol

Dewi Aeron Morgan – Prif Swyddog Cyllid
Iwan G Evans – Swyddog Monitro

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd 17 Mehefin fel rhai cywir.

## 5. STRWYTHUR Y SEFYDLIAD A STAFFIO 8 - 10

Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr y CBC, a Dafydd L Edwards, Swyddog Arweiniol Prosiect y CBC i gyflwyno adroddiad sy'n ymdrin â phenodi Prif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (y CBC), a gohirio unrhyw symudiad i gyflogi staff i ymgymryd â'r dyletswyddau Cynllunio a Thrafnidiaeth am y tro.

## 6. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG AR GYFER 2022/23 11

I gytuno ar ddyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

## 7. MABWYSIADU SAFONAU'R GYMRAEG 12 - 14

Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd, i gyflwyno adroddiad ar fabwyiadu Safonau'r Gymraeg.

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD DYDD GWENER, 17 MEHEFIN 2022

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Jason McLellan (Cyngor Dir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Mon), Charlie McCoubury (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mark Prichard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd)

Aelod Eryri: Y Cynghorydd Annwen Hughes (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

Prif Swyddogion – Iwan Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Mon), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), , Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Richard Weigh (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) a Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol –Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dafydd L. Edwards (Swyddog Arweiniol Prosiect y Cyd-Bwyllgor, a cynrychiolydd y Swyddog Cyllid Statduol), Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

## 1. ETHOL CADEIRYDD 2022/23

Penderfynwyd ethol y Cyng. Dyfrig Siencyn yn Gadeirydd y Cyd-Bwyllgor ar gyfer 2022/23.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD 2022/23

Penderfynwyd ethol y Cyng. Mark Pritchard yn Is-Gadeirydd y Cyd-Bwyllgor ar gyfer 2022/23.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Emyr Williams (Prif Weithredwr Parc Cenedlaethol Eryri) ond nodwyd fod Iwan Jones yn dirprwyo ar ei ran, a Dewi Morgan (Swyddog Adran 151).

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd ddatganiad o fuddiant personol gan Iwan Evans a Dafydd Gibbard ar gyfer eitem 9: Strwythur y Sefydliad a Staffio.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar yr 14eg a'r 28ain o Ionawr 2022 fel rhai cywir.

## 7. MATERION CYFANSODDIADOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd L Edwards (Swyddog Arweiniol Prosiect y Cyd-Bwyllgor).

**PENDERFYNIAD**

1. Cytunwyd i sefydlu Is-Bwyllgor Cynllunio Strategol ac Is-Bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a chymeradwywyd yr yr aelodaeth a'r hawliau pleidleisio canlynol –
    i. Is-bwyllgor Cynllunio Strategol gyda 7 aelod â phleidlais, un o bob un o'r awdurdodau cyfansoddol (6 Chyngor ac APCE).
    ii. Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol gyda 6 aelod â phleidlais, un o bob un o'r 6 Chyngor.
    iii. Aelodaeth yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol i gynnwys yr aelod Cabinet perthnasol o bob Cyngor cyfansoddol sy'n dal y portffolio ar gyfer Polisi Cynllunio, a chynrychiolydd APCE.
    iv. Aelodaeth yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol gynnwys yr aelod Cabinet perthnasol o bob Cyngor cyfansoddol sy'n dal y portffolio ar gyfer Polisi Trafnidiaeth.

2. Cadarnhawyd yr 22 Gorffennaf fel dyddiad nesaf y Cyd-Bwyllgor a cadarnhawyd y bydd holl gyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn cael ei cynnal yn rhithiol am y tro.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi y penderfyniad sef i sefydlu dau is-bwyllgor ar gyfer Cynllunio Strategol ynghyd â Thrafnidiaeth, ac i ofyn am adroddiad pellach ar Gylch Gorchwyl a Rheolau Sefydlog yr Is-bwyllgorau i'r cyfarfod nesaf. Nodwyd yn ogystal i ohirio sefydlu'r Is-Bwyllgorau Safonau a Llywodraeth ac Archwilio hyd nes y bydd cadarnhad o'r gofynion statudol.

Eglurwyd fod y darlun o ran strwythur yr Is-bwyllgorau wedi parhau yr un strwythur ers yr adroddiad safonol a gyflwynwyd i'r chwe Cyngor a'r Parc yn ôl ym mis Rhagfyr 2021. Amlygwyd fod y strwythur yn un ar gyfer y dyfodol ac mai dim ond penderfynu ar sefydlu dau o'r is-bwyllgorau mae'r Cyd-bwyllgor yn y cyfarfod hwn. Mynegwyd drwy wneud hyn fod y Cyd-bwyllgor yn gosod fframwaith ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau cychwynnol.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro mai hwn yw'r tro cyntaf i'r Cyd-Bwyllgor gytuno ar y fframwaith ar gyfer is-bwyllgorau ynghyd a'r aelodaeth.

Eglurwyd fod sefyllfa'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn eitem i'w drafod yn ystod tymor yr hydref.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am y gwaith a cefnogwyd y cynnig a wnaethpwyd.
- Mynegwyd cefnogaeth i'r cyfarfodydd barhau yn rhithiol ar hyn o bryd.

## 8. DATGANIAD POLISI TÂL 2022/23

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd).

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i fabwysiadu datganiad polisi tâl Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2022/23.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn hunan eglurhaol. Mynegwyd ei bod yn ddyletswydd i'r Cyd-Bwyllgor fod yn mabwysiadu polisi tal yn flynyddol. Eglurwyd mai polisi tâl Cyngor Gwynedd sydd wedi'i fabwysiadu ar gyfer cyflogi staff "Uchelgais Gogledd Cymru" ac fod adroddiad arall ar y rhaglen yn argymell ymestyn y trefniadau presennol i Cyngor Gwynedd ddarparu gwasanaethau cefnogol i'r Cydbwyllgor am gyfnod dros-dro, am y rheswm hyn cynigwyd defnyddio addasiad o bolisi tâl Cyngor Gwynedd ar gyfer 2022/23.

## 9. STRWYTHUR Y SEFYDLIAD A STAFFIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd L Edwards (Swyddog Arweiniol Prosiect y Cyd-Bwyllgor).

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i ail-benodi Dafydd Gibbard yn Brif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor ar sail dros dro hyn nes y bydd y swydd yn cael ei hadolygu eto.

Cytunwyd i ail-benodi Dewi Morgan yn Brif Swyddog Cyllid a Iwan Evans yn Swyddog Monitro a Swyddog Priodol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

Cytunwyd i barhau gyda'r trefniadau sydd yn bodoli yn barod i Gyngor Gwynedd darparu gwasanaeth cefnogol i'r Cyd-Bwyllgor, o leiaf hyd at ddyddiad trosglwyddo'r Bwrdd Uchelgais i'r Cyd-Bwyllgor, neu pan fydd Partneriaid i "GA2" y Bwrdd Uchelgais yn cytuno i fodel amgen.

Mabwysiadwyd Amodau a Thelerau cyflogaeth Cyngor Gwynedd i ddechau, yn weithredol o ddyddiad yr adroddiad hwn fel ei delerau ac amodau cyflogaeth i'r staff.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi er fod yr adroddiad yn argymell penderfynu ar dair swydd Cynllunio ynghyd â dwy swydd Trafnidiaeth eglurwyd fod angen trafodaeth pellach cyn gwneud penderfyniad ar y swyddi yma ac felly tynnwyd rhan berthnasol o'r argymhellion yn ôl i'w trafod y cyfarfod nesaf.

O ganlyniad nodwyd mai gofyn mae'r adroddiad i ail benodi swyddogion Gwynedd ar sail dros dro sef y Brif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Monitro a Swyddog Priodoldeb ynghyd â darparu gwasanaethau cefnogol i'r Cydbwyllgor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Cefnogwyd y cynnig i dynnu yn ôl yr argymhellion swyddi.

— Diolchwyd i staff Gwynedd am gymryd y rôl i arwain ar gwaith o sefydlu'r Cydbwyllgor, gan fod maint yn y gwaith yn sylweddol er mwyn creu corff biwrocrataidd.

Dechreuodd y cyfarfod am 9.30 y.b. a daeth i ben am 10.00 y.b.

**CADEIRYDD**

CYFARFOD: **Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (y CBC)**

DYDDIAD: **22 Gorffennaf 2022**

PWNC: **STRWYTHUR Y SEFYDLIAD A STAFFIO**

SWYDDOG CYSWLLT: **Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr y CBC, a Dafydd Edwards, Swyddog Arweiniol Prosiect y CBC**

---

**PENDERFYNIADAU A GEISIR:**

**Cyflwyno cais i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ryddhau rhan o amser eu Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y CBC, ar sail dros dro.**

---

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â phenodi Prif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (y CBC), a gohirio unrhyw symudiad i gyflogi staff i ymgymryd â'r dyletswyddau Cynllunio a Thrafnidiaeth am y tro.

## 2. Arfarniad o Opsiynau ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol y CBC

Yn ei gyfarfod cyntaf ar 14 Ionawr 2022, gwnaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ail-benodi Dafydd Gibbard yn Brif Weithredwr y CBC, ar sail dros dro yn weithredol hyd nes caiff y swydd ei hadolygu eto gan y CBC.

Yn ogystal, mae Cyngor Gwynedd yn darparu rolau Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) y CBC a Swyddog Monitro'r CBC. Mae hyn, wrth gwrs, yn sicrhau cysondeb gyda threfniadau'r Bwrdd Uchelgais ac mae dadl glir dros barhau fel ar gyfer y rôl Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro (gan ei bod yn debygol y bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn trosglwyddo i CBC y Gogledd, o bosibl ar 01/04/2023).

Fodd bynnag, nid yw’r dadleuon hynny'n berthnasol i rôl y Prif Weithredwr, ac mae'r opsiynau ar gyfer llenwi'r rôl honno dros dro yn cynnwys –

**Opsiwn A** - Creu swydd annibynnol fel Prif Swyddog Gweithredol y CBC –

Mae aelodau’r CBC wedi edrych i sicrhau gwerth am arian wrth sefydlu’r CBC, pan gytunwyd ar ddull isafswm cyllideb i'r holl drefniant CBC yn 2022/23. Mae hynny i bob pwrpas wedi arwain at ddiystyru'r opsiwn hwn.

**Opsiwn B** - Penodi un o'r 6 Phrif Weithredwr awdurdod lleol yn ffurfiol fel Prif Weithredwr y CBC.

Mae hyn wedi profi i fod yn anodd, o ystyried nad oes digon o amser ar gael i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r sefydliad (sefydlu systemau a hunaniaeth), datblygiadau gwleidyddol (arweinyddiaeth ôl-etholiad) a datblygiadau staffio (rheolaeth llinell ar gyfer swyddi Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth Ranbarthol).

Ail benodi Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr Gwynedd) fel Prif Weithredwr y CBC dros dro oedd yr unig ateb pragmataidd am y cyfnod interim rhwng Mehefin a Medi 2022.

**Opsiwn C** - Ymestyn rôl Cyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru (prif swyddog Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) i gynnwys (yn rhan amser) rôl Prif Weithredwr y CBC hefyd.

Gan gadw mewn cof y tebygrwydd y bydd y BUE yn cael ei ymgorffori'n rhan o'r CBC yn fuan, dyma'r opsiwn a ffefrir gan 6 Prif Weithredwr yr awdurdodau lleol, yn dilyn ystyriaeth dros gyfnod o amser.

Mae 6 Arweinydd awdurdodau lleol y Gogledd yn eistedd ar y Bwrdd Uchelgais a'r CBC, ac mae'r model o dynnu ar arbenigedd y Cyfarwyddwr Portffolio yn cael ei fabwysiadu ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer eu CBC nhw.

Hefyd, gallai Prif Weithredwr y CBC fod yn 'gleient' effeithiol i wasanaethau cefnogol Cyngor Gwynedd, gan adeiladu ar y berthynas weithio ardderchog sy'n bodoli'n barod.

Bydd angen i'r Bwrdd Uchelgais gymeradwyo yr Opsiwn yma. Mae nifer o agweddau y byddai angen rhoi sylw iddynt o safbwynt y Bwrdd Uchelgais, megis 'ôl-lenwi' rhan o rôl y Cyfarwyddwr Portffolio i greu'r capasiti angenrheidiol.

Bydd angen i'r CBC roi cyfraniad ariannol dros dro i'r BUE er mwyn rhoi'r hyblygrwydd iddynt allu gwneud pa bynnag addasiadau mewnol fydd ei angen arnynt er mwyn gallu parhau i gyflawni'r Rhaglen Twf yn effeithiol.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i ymgysylltu â Thrysorlys EM ar yr amseru ar gyfer y Gorchmynion fydd yn datrys sefyllfa TAW y CBC (y gallu i hawlio ad-daliad o'r TAW a dalwyd), a mynediad y CBC i fenthyca (gan y PWLB ar gyfradd llog isel), ond disgwylir bydd eglurder "yn ddiweddarach yn 2022, o bosibl yn yr hydref".

Golygai hyn fod trosglwyddiad posibl o swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais i'r CBC yn llawer mwy tebygol erbyn hyn, wrth i asiantaethau Llywodraeth San Steffan ddechrau symud ar faterion treth a benthyca. Mae hyn oll yn cefnogi'r rhesymeg i ddod ag arweinydd y Bwrdd Uchelgais yn rhan ganolog o drafodaethau sefydlu'r CBC.

**ARGYMHELLIAD**

**Gan gydnabod goblygiadau datblygiadau'r CBC ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru, fod Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cyflwyno cais i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ryddhau rhan o amser eu Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y CBC, ar sail dros dro.**

## 3. Trefniadau ar gyfer Staff Cynllunio a Thrafnidiaeth

Bydd raid i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ystyried trefniadau ar gyfer comisiynu'r dyletswyddau Cynllunio a Thrafnidiaeth y rhagnodir i'w cyflawni gan y CBC – h.y. paratoi, datblygu, cynhyrchu, monitro, adolygu a diwygio Cynllun Datblygu Strategol (CDS) a Chynllun Trafnidiaeth Ranbarthol (CTR).

Mae darpariaeth gyllidebol gan y CBC ar gyfer cost cyflogi tair swydd Cynllunio Strategol a dwy swydd Trafnidiaeth Ranbarthol am ran o'r flwyddyn 2022/23.

Fodd bynnag, nid cyflogi staff yn uniongyrchol yw'r unig opiwn i gyflawni'r swyddogaethau hyn ac felly mae angen rhoi ystyriaeth i opsiynau eraill hefyd, megis penodi ymgynghorwyr arbenigol, neu gomisiynu awdurdodau lleol i arwain ar feysydd Cynllunio Strategol a/neu Thrafnidiaeth Ranbarthol.

Ers cyfarfod diwethaf y CBC, mae'r amserlen gan y Llywodraeth ar gyfer cyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Strategol wedi cael ei ymestyn a bellach mae'n debygol o fod yn 2024 ar y cynharaf ar orfod cwblhau'r gwaith hwn. Golyga hynny fod llai o frys i ddod i benderfyniad.

Felly, **argymhellir aros am y tro, a gohirio sefydlu unrhyw swyddi Cynllunio a Thrafnidiaeth ranbarthol** er mwyn rhoi cyfle i Brif Weithredwr dros dro newydd y CBC ddylanwadu ar y ffordd ymlaen.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro**
Rwyf wedi gweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad hwn ac rwy'n cadarnhau'r cynnwys.

**Swyddog Cyllid Statudol**
Rwyf wedi gweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad hwn ac rwy'n cadarnhau'r cynnwys.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd** |
| DYDDIAD: | **22 Gorffennaf 2022** |
| PWNC: | **Dyddiadau cyfarfodydd 2022/23** |

---

**PENDERFYNIADAU A GEISIR:**

**Cytuno ar y dyddiadau isod ar gyfer Cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2022/23.**

---

Er mwyn sicrhau trefniadau cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, gofynnir i'r Aelodau dderbyn y dyddiadau isod fel dyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd:

- 16 Medi (pm)
- 18 Tachwedd (pm)
- 13 Ionawr (am)
- 31 Mawrth (am)

Noder mai dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond gall sefyllfaoedd godi ble bydd angen trefnu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn gallu gweithredu anghenion y Cyd-bwyllgor.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro**
Cyflwynir unrhyw arweiniad o safbwynt priodoldeb yn y cyfarfod.

**Swyddog Cyllid Statudol**
Rwyf wedi gweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad hwn ac rwy'n cefnogi'r dyddiadau a gynhigir ar gyfer y cyfarfodydd.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd** |
| DYDDIAD: | **22 Gorffennaf 2022** |
| TESTUN: | **MABWYSIADU SAFONAU'R GYMRAEG** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd** |

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR:**

- Cytuno i'r Cydbwyllgor fabwysiadu Safonau Iaith dros dro nes y bydd safonau pwrpasol yn cael eu gosod ar y Cydbwyllgor Corfforedig gan Gomisiynydd y Gymraeg
- Comisiynu cefnogaeth asesu effaith ieithyddol a'r gwasanaethau cyfieithu (cyfarfodydd ac ysgrifenedig) yn ôl yr angen gan Cyngor Gwynedd, fel yr awdurdod sy'n bresennol cefnogi gwaith y Cyd Bwyllgor Corfforedig
- Comisiynu yr adnodd ar gyfer proses gosod Safonau gyda'r Comisiynydd, ynghyd â monitro gweithrediad y Safonau a llunio unrhyw adroddiadau cynnydd yn ôl yr angen gan Cyngor Gwynedd, fel yr awdurdod sy'n bresennol cefnogi gwaith y Cyd Bwyllgor Corfforedig

---

## 1. Gofyn a disgwyliad Statudol

Caiff Safonau'r Gymraeg eu gosod fel gofyn statudol ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru dan Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi gwybod bod bwriad i osod safonau iaith ar bob CBC yng Nghymru maes o law. Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r Rheoliadau sydd yn berthnasol i'r Safonau, ac mae'r Cyd-bwyllgorau wedi eu hychwanegu at Reoliadau Rhif 1 y Mesur, sef y rheoliadau y mae'r Awdurdodau Lleol a'r Parc Cenedlaethol eisoes yn rhan ohonynt.

Mae disgwyl felly y bydd y Safonau fydd yn cael eu gosod ar y CBCau yn dilyn yr un patrwm a'r Safonau sydd eisoes wedi eu gosod ar yr awdurdodau unigol.

Mae proses benodol ar gyfer gosod safonau ar unrhyw gorff, ac mae'n ansicr ar hyn o bryd faint o amser y bydd hyn yn cymryd (gall y broses gymryd hyd at 2 flynedd). Mae'r Comisiynydd wedi awgrymu felly bod y CBC yn mabwysiadu safonau un o'r awdurdodau lleol, fel mesur dros dro, ac er mwyn sicrhau bod y CBCau yn gweithredu yn unol ag egwyddorion y Mesur o'r cychwyn. Mae rhai o'r CBCau eraill ar draws Cymru eisoes wedi gweithredu ar hyn, ac wedi cytuno i fabwysiadu safonau un o'r awdurdodau cysylltiol.

Yn y Gogledd, nid oes llawer o wahaniaethau rhwng y Safonau sydd wedi eu gosod ar y gwahanol Gynghorau. Mae'r safonau sylfaenol i gyd yr un fath, gydag ambell amrywiad neu eithriad gan rai Cynghorau o ran y cyd-destun lle mae angen eu gweithredu. Felly, os ydi safon eisoes wedi ei osod ar yr holl awdurdodau sydd yn rhan o'r Cydbwyllgor bydd disgwyliad bod y Cydbwyllgor ei hun yn eu gweithredu hefyd. Mae'r Comisiynydd yn bwriadu cynnal ymarfer mapio dros yr wythnosau nesaf, fydd yn edrych ar amlygu'r safonau cyffredin rhwng y gwahanol awdurdodau, a byddant yn rhannu'r wybodaeth honno gyda'r Cyngor pan fydd yn barod.

## 2. Proses gosod

Mae'r broses sydd wedi ei hamlinellu gan swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer gosod y Safonau ychydig yn wahanol i'r drefn arferol. Nid ydynt yn rhagweld y bydd rhaid cynnal gam ymgynghori cychwynnol fel sydd yn digwydd yn arferol, gan fod y CBCau wedi eu hychwanegu at Reoliadau Rhif 1.

Bydd y Comisiynydd yn cysylltu gyda phob CBC yn ffurfiol yn ystod y misoedd nesaf, yn gofyn i gael dod i gyfarfod o'r CBC i gynnal sesiwn briffio ac amlinellu'r camau fydd i ddilyn. Bydd proses ymgynghori yn dilyn y cyfarfod yma, gyda chynigion yn cael eu cyflwyno am y Safonau y dylid eu gosod.

Deallir bod y Comisiynydd yn edrych i fod yn uchelgeisiol ac i osod cymaint â phosib o safonau ar y cydbwyllgorau, a hynny yn ddibynnol ar beth fydd union natur weithredol a strwythurol y cydbwyllgorau.

## 3. Camau nesaf - gweithredu gofynion y Safonau

Gofynnir i aelodau'r CBC drafod ac ystyried mabwysiadu Safonau sy'n cyd fynd ag egwyddorion gweithredu ieithyddol y Bwrdd Uchelgais fel mesur dros dro nes y bydd safonau pwrpasol yn cael eu gosod ar y Cydbwyllgor Corfforedig gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Argymhellir canolbwyntio yn y man cyntaf ar y safonau hynny sydd fwyaf perthnasol i strwythur a dull gweithredu y CBC ar hyn o bryd, gan sicrhau bod unrhyw wasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yn ddwyieithog. Dylid blaenoriaethu y gallu i ddarparu gwasanaethau yn effeithiol ac i allu parchu dewis ac angen ieithyddol y cyhoedd.

Byddai hefyd yn golygu cynnal asesiad o'r sgiliau ieithyddol fydd eu hangen ar gyfer pob swydd newydd all y CBC ei sefydlu, yn unol â disgwyliad y Safonau. Wrth hysbysebu, bydd angen categoreiddio swydd , a nodi a yw yn Hanfodol neu Ddymunol i'r unigolyn a benodir fod efo'r sgiliau hynny, neu fod cyfle i ddysgu wedi derbyn y swydd

Mae swyddogion iaith y cyrff perthnasol yn gefnogol i'r syniad yma o fabwysiadu yr hyn gaiff ei argymell fel mesur dros dro, ond credir bod hefyd angen eglurder ar rai materion ymarferol wrth symud ymlaen, ac yn benodol felly pwy fydd yn gyfrifol am rai agweddau ar weithrediad y Safonau.

Mae rhai elfennau o'r Safonau yn gofyn am adnodd gweithredol penodol. Hynny yw, bydd angen cymryd camau penodol i sicrhau cydymffurfiaeth sydd yn golygu mwy na gofyn i staff weithredu yn ddwyieithog. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys:

- Monitro cydymffurfiaeth a delio gyda cwynion
- Cyfieithu – ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd
- Asesu effaith penderfyniadau polisi
- Trefn recriwtio

**ARGYMHELLIAD**

**Bod y Cyd Bwyllgor Corfforedig yn;**

- **Cytuno i fabwysiadu'r Safonau ar sail yr hyn sy'n berthnasol i'r Bwrdd Uchelgais yn bresennol ac hynny fel cam dros dro, nes y bydd y Comisiynydd wedi gosod safonau penodol.**

- **Comisiynu cefnogaeth asesu effaith ieithyddol a'r gwasanaethau cyfieithu (cyfarfodydd ac ysgrifenedig) yn ôl yr angen gan Cyngor Gwynedd, fel yr awdurdod sy'n bresennol cefnogi gwaith y Cyd Bwyllgor Corfforedig**

- **Comisiynu yr adnodd ar gyfer proses gosod Safonau gyda'r Comisiynydd, ynghyd â monitro gweithrediad y Safonau a llunio unrhyw adroddiadau cynnydd yn ôl yr angen gan Cyngor Gwynedd, fel yr awdurdod sy'n bresennol cefnogi gwaith y Cyd Bwyllgor Corfforedig.**

**SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro**

Byddai'r camau yma yn cyd fynd gydag awgrym Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac yn sicrhau bod trefniadau addas dros dro mewn lle.  Mae felly'n ffordd synhwyrol a phriodol  o symud ymlaen.

**Swyddog Cyllid Statudol**

Rydym ni angen ymateb i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar hyn, ac mae'r argymhelliad i fabwysiadu Safonau ar sail yr hyn sy'n berthnasol i'r Bwrdd Uchelgais yn ddatrysiad pragmatig. O ran adnodd ar gyfer y broses gosod Safonau gyda'r Comisiynydd, byddai opsiwn o brynu'r gwasanaeth yma gan awdurdod cefnogol yn gyson gyda bwriad yr aelodau i gadw at gyllideb isafswm am eleni.